# Minutes of the Monthly Meeting of Mumbles Community Council held on 16 May 2023 at 6.30 pm (Hybrid Meeting at the Ostreme Centre and via Zoom)

**Members Present:** Cllrs Martin O'Neill (Chair), Will Thomas (Vice-Chair), Sara Keeton, Rob Marshall, Helen Nelson, Francesca O'Brien, Angela O'Connor, Carrie Townsend Jones, Ian Scott, Pamela Erasmus, Rhian Evans, Tim Zhou and Rebecca Fogarty

**Officer Present**: Ian Hughes - Committee Support Officer

**CO2305-01** **Apologies for Absence**
Cllrs Michael Parkin, Richard Jarvis and Phil Keeton

**CO2305-02** **Declarations of Interest**
Cllr. Marshall declared an interest in relation to agenda item **CO2305-09** (grant application) as he is a personal friend of the proprietor of Homeless Dance

**CO2305-03** **Public Participation**
There was no public representation at the meeting.

**CO2305-04** **Digital Archive – Phase 3**
Following a brief introduction by Cllr Will Thomas on the Mumbles Digital Archive Programme; Bev Rogers supported by two volunteers Josie and Barbara gave a short update on the progress of the project. The archive has been named 'The Story of Mumbles' and this website will contain a variety of formats including photographs, stories and posts. There are currently 33 volunteers whose ages range between 17 and 92 inputting information. Each entry is cross references with different categories e.g. pubs, bridges, beaches. It is a lengthy process with each image taking about 10 minutes to complete.
The website contains in the region of 500 items and will be launched once an acceptable number of items have been updated onto the website. The decision to launch will be taken by the Archive Sub-Committee who are best placed to judge when sufficient items are recorded on the website.

**RESOLVED** To approve the payment of £1,000 pcm from the CTC12-Digital Archive Budget to MCC's heritage coordinator for up to 12 months for what will be known as phase three of the digital archive. The progress is to be monitored by the culture, Tourism and Communications committee of the council.

**CO2305-05** **Minutes of Previous Meeting on 11 April 2023**
**RESOLVED** to approve the minutes of the meetings held on 11 April 2023 as a true record.

**CO2305-06** **Chair's Report**
The chair hoped to appoint a new clerk on or shortly after 16 May 2023. The chair wished to thank those who had wished him well in his new appointment.

**RESOLVED** to note the report.

**C02305-07** **Twinning**

MCC's representation at the Twinning visit to Hennebont discussed.

**RESOLVED** Cllrs Erasmus and Townsend Jones to represent MCC using the CTC21-Twinning Budget previously agreed.

**C02305-08** **Relocation of MCC Benches**

During the Pandemic MCC purchased 20 picnic benches which have been placed at Southend Gardens. Following the end of the pandemic these benches need to be relocated. This agenda item only relates to these benches and not the benches along the seafront impacted by the sea defence programme.

Discussion focused around how best to share the benches around the different wards including the new skate park development.

**RESOLVED** that each ward be allocated five benches.

**C02305-09** **Grant Application**

Wholeness Dance - Amended Grant Application Grant application for £3,318 towards the Mumbles Movers and Groovers Project which is for ages 60+ and incorporates specific exercises to improve strength, mobility, balance and flexibility and is designed to reduce falls in the elderly through the fun medium of dance discussed. The payment would be made from the Small and Medium Grants (FC1) budget.

The overall cost of the programme exceeds £6,000 with the majority of costs being the renting Ostreme and staff wages. Similar courses are run elsewhere in Swansea and it is believed that the project will primarily benefit residents within the MCC catchment area. The application is based on at least 20 participants contributing £4 per session. The main concern for councillors focused on the conflict between providing a valuable service for elderly residents against not supporting similar funding to other worthwhile projects. In the future a reduced or no rent arrangement may be possible when MCC are responsible for Ostreme Centre

**RESOLVED** It was approved that the application be agreed as a 'pilot' programme. A grant of £829.50 for the first quarter (12 weeks) of the project from budget FC1 Small and Medium Grants to be paid with a review to be conducted prior to the end of that period.

**C02305-10** **Questions for the Chair of the Community and Social Development Committee**

In answer to Cllr Scott's query, Cllr Erasmus informed the council that the new Skate Park at West Cross will be opening on 10 June 2023, and that financial arrangements are being addressed by RFO.

**C02305-11** **Questions to the Chair of the Culture, Tourism and Communications Committee**

No questions were asked.

**C02205-12** **Questions to the Chair of the Environmental Committee**

No questions were asked.

**C02305-13** **Questions to the Chair of the Finance and Compliance Committee**

No questions were asked.

**CO2305-14** **Exclusion of Press and Public**

A discussion centred on the need to exclude the public from discussion on The Underhill Park Development.

**RESOLVED** that due to the confidential nature of the business to be discussed, the press and public be excluded from the meeting.

**CO2305-15** **Progress of Underhill**

Discussion centred on development of Underhill Park facilities, in particular the installation of an all-weather 3G pitch impacting on the ability of Mumbles Rangers Senior Team to play football at Underhill in a Tier 2 or Tier 3 league.

**RESOLVED** that £1,500 should be made available from the contingency budget for eventualities in relation to legal and survey fees connected to Underhill Development. Also, that a letter (drafted by Cllrs Townsend Jones, Thomas, Fogarty and Thomas) seeking to resolve the issue of Mumbles Rangers playing at Underhill Park be sent to all interested parties including MCA.

The meeting ended at 8.40pm.

CO2305-MI

# Cofnodion Cyfarfod Misol
# Cyngor Cymuned y Mwmbwls a gynhaliwyd ar 16 Mai 2023 am 6.30 pm
# (Cyfarfod Hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thros Zoom)

**Aelodau'n bresennol:** Y Cynghorwyr Martin O'Neill (Cadeirydd), Will Thomas (Is-Gadeirydd), Sara Keeton, Rob Marshall, Helen Nelson, Francesca O'Brien, Angela O'Connor, Carrie Townsend Jones, Ian Scott, Pamela Erasmus, Rhian Evans, Tim Zhou a Rebecca Fogarty

**Swyddog yn bresennol**: Ian Hughes – Swyddog Cefnogi Pwyllgorau

**CO2305-01** **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Y Cynghorwyr Michael Parkin, Richard Jarvis a Phil Keeton

**CO2305-02** **Datganiadau o Fuddiannau**

Cafwyd datganiad o fuddiant gan y Cynghorydd Marshall mewn perthynas ag eitem **CO2305-09** ar yr agenda (cais am grant) gan ei fod yn ffrind personol i berchennog Homeless Dance.

**CO2305-03** **Cyfranogiad y Cyhoedd**

Nid oedd cynrychiolaeth gyhoeddus yn y cyfarfod.

**CO2305-04** **Archif Digidol – Cam 3**

Yn dilyn cyflwyniad byr gan y Cynghorydd Will Thomas ar Raglen Archif Digidol y Mwmbwls, rhoddodd Bev Rogers, gyda chefnogaeth dau wirfoddolwr, Josie a Barbara, ddiweddariad cryno ar gynnydd y prosiect. Mae'r archif wedi'i enwi'n 'Stori'r Mwmbwls' a bydd y wefan hon yn cynnwys amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys ffotograffau, straeon a negeseuon. Ar hyn o bryd, mae 33 o wirfoddolwyr rhwng 17 a 92 oed yn mewnbynnu gwybodaeth. Mae pob cofnod yn croesgyfeirio â gwahanol gategorïau, e.e. tafarndai, pontydd, traethau. Mae'n broses hir gyda phob delwedd yn cymryd tua deg munud i'w chwblhau. Mae'r wefan yn cynnwys tua 500 o eitemau a bydd yn cael ei lansio unwaith y bydd nifer derbyniol o eitemau wedi'u diweddaru ar y wefan. Bydd y penderfyniad i lansio yn cael ei wneud gan Is-bwyllgor yr Archif, sydd yn y sefyllfa orau i farnu pryd y cofnodir digon o eitemau ar y wefan.

**PENDERFYNWYD** Cymeradwyo taliad o £1,000 y mis o gyllideb Archif Digidol CTC12 i gydlynydd treftadaeth Cyngor Cymuned y Mwmbwls am hyd at 12 mis am yr hyn a elwir yn gam tri o'r archif digidol. Bydd y cynnydd yn cael ei fonitro gan Bwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu'r cyngor.

**CO2305-05**

**Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a Gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2023**

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2023 fel cofnod cywir.

**CO2305-06** **Adroddiad y Cadeirydd**

Roedd y cadeirydd yn gobeithio penodi clerc newydd ar 16 Mai 2023 neu'n fuan wedi hynny. Dymunodd y cadeirydd ddiolch
i'r rhai oedd wedi dymuno yn dda iddo yn ei benodiad newydd.

**PENDERFYNWYD** Nodi'r adroddiad.

**CO2305-07** **Gefeillio**

Trafodwyd cynrychiolaeth Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn yr ymweliad gefeillio â Hennebont.

**PENDERFYNWYD** Y Cynghorwyr Erasmus a Townsend Jones i gynrychioli Cyngor Cymuned y Mwmbwls, gan ddefnyddio cyllideb gefeillio CTC21
a gytunwyd yn flaenorol.

**CO2305-08** **Adleoli Meinciau Cyngor Cymuned y Mwmbwls**

Yn ystod y pandemig, prynodd Cyngor Cymuned y Mwmbwls 20 o feinciau picnic, sydd wedi'u gosod yng Ngerddi Southend.
Yn dilyn diwedd y pandemig, mae angen symud y meinciau hyn.
Mae'r eitem hon ar yr agenda yn ymwneud â'r meinciau hyn yn unig ac nid y meinciau ar hyd glan y môr y mae rhaglen amddiffyn y môr wedi effeithio arnynt.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y ffordd orau o rannu'r meinciau o amgylch y gwahanol wardiau, gan gynnwys
datblygiad y parc sglefrio newydd.

**PENDERFYNWYD** Bod pum mainc yn cael eu dyrannu i bob ward.

**CO2305-09** **Cais am Grant**

Wholeness Dance – Cais grant diwygiedig am grant o £3,318 tuag at brosiect 'Movers and Groovers' y Mwmbwls, sydd ar gyfer pobl 60 oed ac yn hŷn ac sy'n cynnwys ymarferion penodol i wella
cryfder, symudedd, cydbwysedd a hyblygrwydd ac sydd wedi'i gynllunio i leihau codymau ymhlith yr henoed trwy'r cyfrwng hwyliog a drafodwyd, sef dawns. Byddai'r taliad yn cael ei wneud o'r gyllideb Grantiau Bach a Chanolig (FC1).

Mae cost gyffredinol y rhaglen yn fwy na £6,000, a'r rhan fwyaf o'r costau yw rhentu Canolfan Ostreme a chyflogau staff. Cynhelir cyrsiau tebyg mewn mannau eraill yn Abertawe a chredir y bydd y prosiect o fudd i drigolion o fewn dalgylch Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn bennaf. Mae'r cais yn seiliedig ar o leiaf 20 o gyfranogwyr yn cyfrannu £4 y sesiwn. Roedd y prif bryder i'r cynghorwyr yn canolbwyntio ar y gwrthdaro rhwng darparu gwasanaeth gwerthfawr i drigolion oedrannus yn erbyn peidio â chefnogi cyllid tebyg i brosiectau gwerth chweil eraill. Yn y dyfodol, efallai y bydd trefniant rhent llai neu ddim rhent yn bosibl pan fydd Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn gyfrifol am Ganolfan Ostreme.

**PENDERFYNWYD** Cymeradwywyd bod y cais yn cael ei gytuno fel rhaglen ‘beilot’. Telir grant o £829.50 am chwarter cyntaf (12 wythnos) y prosiect o gyllideb FC1 Grantiau Bach a Chanolig, gydag adolygiad i'w gynnal cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

CO2305-MI

**CO2305-10** **Cwestiynau i Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol**

Mewn ymateb i ymholiad y Cynghorydd Scott, hysbysodd y Cynghorydd Erasmus y cyngor y bydd y parc sglefrio newydd yn West Cross yn agor ar 10 Mehefin 2023, a bod y swyddog ariannol cyfrifol yn mynd i'r afael â'r trefniadau ariannol.

**CO2305-11** **Cwestiynau i Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu** Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**CO2205-12** **Cwestiynau i Gadeirydd y Pwyllgor Amgylcheddol** Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**CO2305-13** **Cwestiynau i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd** Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**CO2305-14** **Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd**

Canolbwyntiodd trafodaeth ar yr angen i eithrio'r cyhoedd o'r drafodaeth ar ddatblygiad Parc Underhill.

**PENDERFYNWYD** Oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod.

**CO2305-15** **Cynnydd Underhill**

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y gwaith o ddatblygu cyfleusterau Parc Underhill, yn enwedig gosod cae 3G pob tywydd sy'n effeithio ar allu tîm hŷn Mumbles Rangers i chwarae pêl-droed yn Underhill mewn cynghrair Haen 2 neu Haen 3.

**PENDERFYNWYD** Y dylai £1,500 fod ar gael o'r gyllideb wrth gefn ar gyfer digwyddiadau posibl mewn perthynas â ffioedd cyfreithiol a ffioedd arolygu sy'n gysylltiedig â datblygiad Underhill. Hefyd, y dylid anfon llythyr (a ddrafftiwyd gan y Cynghorwyr Townsend Jones, Thomas, Fogarty a Thomas) yn ceisio datrys mater Mumbles Rangers yn chwarae ym Mharc Underhill at bawb sydd â diddordeb, gan gynnwys Cymdeithas Gymunedol y Mwmbwls.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40pm.